AMGUEDDFA CYMRU

**Cyfarfod Agored Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru – Cofnodion**

**Dydd Iau 12 Rhagfyr 2024 10:30 – 14:25**

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd – Ystafelloedd Oriel**

**Ymddiheuriadau:**

*Emma Yhnell, Ymddiriedolwr*

*Nicky Guy, Llywodraeth Cymru*

*Rhodri Davies, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu*

**Aelodau'r Bwrdd yn Bresennol:**

*Kate Eden (Cadeirydd)*

*Rhys Evans (Is-gadeirydd)*

*Hywel John (Trysorydd)*

*John Hunt*

*Ameerah Mai*

*Owen Hathway*

*Llion Iwan (ar Microsoft Teams)*

*Daniel Richards (ar Microsoft Teams)*

*David Aled Jones*

*Jan Williams*

*Abigail Lawrence*

*Richard Thomas*

*Freya Stannard*

*Cai Wilshaw*

**Aelodau'r Tîm Gweithredol yn Bresennol:**

*Jane Richardson, Prif Weithredwr*

*Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil*

*Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu*

*Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau*

*Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth*

*Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido*

**Aelodau Ychwanegol yn Bresennol:**
***Manon Maragakis, Llywodraeth Cymru** (ar Microsoft Teams)*
***Paul Kindred, Llywodraeth Cymru** (ar Microsoft Teams)*
***Catrin Roberts, Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Chyllido***
***Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol***
***Royston Smith, Pennaeth Digidol***
***Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid***
***Chris Pyrah, Gweinyddwr Llywodraethu (Ysgrifenyddiaeth)***
***Ioan Davies (Cyfieithydd)***

---

1. **Agor y Cyfarfod**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
   i. Ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, diolchodd y Cadeirydd i Irenie Ekkeshis a'r tîm yn New Citizen Project, yn ogystal â Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu, a'i chyd-weithwyr yn Amgueddfa Cymru am eu gwaith i drefnu a hwyluso'r Sesiwn Ddatblygu ar gyfer y Bwrdd, a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2024. Diolchodd hefyd i Kath Davies, Ceri Jones a'r tîm Celf i gyd am y daith o amgylch dwy oriel sy'n cael eu had-drefnu yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a ddigwyddodd yn union cyn cyfarfod y Bwrdd.
   ii. Rhoddwyd croeso arbennig i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a benodwyd yn ddiweddar, sef Steve Hudson.

II. Datganiadau o Fuddiant
   i. Nodwyd bod gan bob un o'r Ymddiriedolwyr fuddiant yn Eitem 13.
   ii. Nodwyd hefyd fod gan bob un o'r staff a oedd yn bresennol fuddiant yn Eitem 15 gan fod yr holl staff yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn, a bod rhai o'r staff a'r Ymddiriedolwyr a oedd yn bresennol yn Ymddiriedolwyr iddo.
   iii. Yn olaf, nodwyd bod gan bob un o'r staff a oedd yn bresennol fuddiant yn Eitem 17 am eu bod yn gyflogeion â thâl yn Amgueddfa Cymru.
   iv. Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiant.

## Strategol – Strategic

2. **Llywio Ein Dyfodol**

   **2.1 Trosolwg – Diweddariad Llafar**

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a roddodd drosolwg ar lafar o'r diweddaraf am raglen waith Llywio ein Dyfodol, gan nodi bod cydweithwyr ym mhob rhan o Amgueddfa Cymru yn parhau i ymwneud yn wych â hi.

II. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ystyried datblygu'r neges er mwyn cynrychioli'r newid pwyslais o Lywio Ein Dyfodol i Gyflawni Ein Dyfodol.

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

  i. Roedd y gwaith a oedd yn cael ei wneud i newid contractau'r staff bron wedi'i gwblhau bellach, a'r safleoedd olaf lle y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn llawn oedd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe a Sain Ffagan. Nodwyd y byddai staff a oedd dan gontract i Elior yn flaenorol yn cael eu symud i Amgueddfa Cymru yn unol â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2016 (TUPE) o 31 Rhagfyr 2024 ymlaen. Diolchwyd i'r timau Adnoddau Dynol a Mentrau am eu gwaith yn y broses hon.

  ii. Nodwyd bod gwaith i ymgysylltu â'r staff y tu hwnt i Grŵp Llywio Ein Dyfodol wedi cael ei wneud drwy rannu allbynnau'r Grŵp fel rhan o arolwg staff, lle y gwahoddwyd y corff staff ehangach i nodi pa allbynnau oedd â chefnogaeth y mwyafrif. Gan fod y meysydd blaenoriaeth bellach wedi'u pennu, byddai aelodau penodedig o staff yn cael eu secondio i rolau lle y gallent fwrw ymlaen â'r blaenoriaethau hyn.

  iii. Nodwyd mai'r meysydd blaenoriaeth y pleidleisiodd y staff drostynt oedd:

    a. Sefydlu a chynefino, gyda ffocws ar y ffordd y caiff aelodau newydd o staff eu hintegreiddio yn y sefydliad.

    b. Gwneud penderfyniadau, gyda ffocws ar ddatblygu matrics gwneud penderfyniadau ar gyfer y sefydliad.

    c. Dysgu ac atebolrwydd, gyda ffocws ar ailwampio proses yr Adolygiad Datblygu Perfformiad (PDR) a'r adnoddau cysylltiedig.

    d. Cydweithio a chreadigrwydd, gyda ffocws ar y cysyniad o gynnig syniadau, nid gwaith papur.

  iv. Nodwyd y byddai'r Gweithgor yn parhau i ystyried allbynnau na wnaeth y staff nodi eu bod yn flaenoriaeth, fel na fyddai'r un syniad yn cael ei golli na'i adael heb ei ddatblygu.

### 2.2 Diweddariad gan y Ffrwd Waith Casgliadau

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nododd fod Grŵp y Ffrwd Waith Casgliadau yn dod â chydweithwyr ynghyd o'r rhan fwyaf o'r safleoedd, adrannau a graddau, gan sicrhau ei fod yn cynrychioli Amgueddfa Cymru drwyddi draw. Nodwyd bod aelodau'r Grŵp wedi ymwneud yn gadarnhaol â'r broses a'r cyfleoedd a oedd wedi deillio o'u gwaith.

II. Nodwyd mai un rhan greiddiol o waith y Grŵp oedd ymchwilio i'r cyfleoedd a allai fod yn bosibl i gydweithio â manwerthwyr mawr, gan ddefnyddio casgliadau Amgueddfa Cymru, ac asesu'r cyfleoedd hynny. Hefyd, nodwyd bod Swyddog Trwyddedu Brand wedi cael ei recriwtio a bod Asiantaeth Trwyddedu Brand wedi cael ei phenodi i arwain y gwaith hwn.

III. Roedd trafodaethau gydag amgueddfeydd cenedlaethol eraill yn dal i fynd rhagddynt ac roedd yn amlwg na fyddai'r ffrwd waith hon yn arwain at gam cyflym

ymlaen a'i bod yn debygol y byddai'n cymryd sawl blwyddyn i ganlyniad ystyrlon ddod i'r amlwg.

IV. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

i. Roedd sgyrsiau'n mynd rhagddynt i drafod pa eitemau yn y casgliad a allai gynnig y sylfaen fwyaf effeithiol ar gyfer amrywiaeth o gynhyrchion ac roedd gwaith ymchwil a datblygu'n cael ei ystyried er mwyn asesu sut y byddai'n rhaid i bresenoldeb Amgueddfa Cymru ar-lein newid er mwyn ysgogi traffig a hybu gwerthiannau.

ii. Roedd fframwaith moesegol yn cael ei ddatblygu ar gyfer y ffrwd waith hon, er mwyn sicrhau y byddai unrhyw gynhyrchion a gaiff eu creu yn ystyriol o bryderon amgylcheddol gyda ffocws ar economi gylchol. Nodwyd hefyd y dylai'r fframwaith moesegol a ddatblygir gael ei ddylunio mewn ffordd sy'n sicrhau y gellid ei roi ar waith ym mhob rhan o Amgueddfa Cymru yn ei chyfanrwydd.

iii. Nodwyd bod y Swyddog Trwyddedu Brand yn rhan o'r tîm casgliadau ond bod gan y rôl gysylltiad uniongyrchol â Mentrau hefyd. Roedd hyn yn golygu y gallai ddylanwadu'n effeithiol ar ddau faes gwaith yr Amgueddfa, cael ei hysbysu amdanynt a'i lywio ganddynt, a bod yn bont rhyngddynt.

iv. Nodwyd mai un nod posibl ar gyfer y gwaith hwn yn y dyfodol fyddai gweithio gyda chyrff diwylliannol eraill yng Nghymru er mwyn helpu ei gilydd i gynnal gweithgareddau trwyddedu, gwerthu cynhyrchion a hyd yn oed gydweithio ar gynhyrchion trwyddedig o bosibl. Nodwyd na ellid ystyried hyn nes bod sicrwydd digonol wedi cael ei roi ynglŷn â'r hyn a fyddai'n gweithio i Amgueddfa Cymru yn gyntaf.

v. O ran datblygu Llyfrgell Luniau Amgueddfa Cymru, nodwyd na fyddai'r gwasanaeth yn cael ei lansio'n llawn tan fis Mawrth 2025, fel bod modd profi'r system yn fwy trylwyr. Nodwyd y byddai'n fuddiol i'r Ymddiriedolwyr gael trosolwg o'r hyn y byddai arlwy'r Llyfrgell Luniau yn ei gynnwys.

**CAM GWEITHREDU: Papur ar Lyfrgell Luniau Amgueddfa Cymru i gael ei gyflwyno yng Nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2025.**

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

## Corfforaethol – Corporate

### 3. Diweddariad Ariannol

Cyn y diweddariad ariannol, gwahoddodd y Cadeirydd Paul Kindred, Llywodraeth Cymru, i wneud sylwadau ar gyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, a ddigwyddodd ar 11 Rhagfyr 2024, a nodwyd y canlynol:

i. Roedd bwriad i gynyddu Cymorth Grant Amgueddfa Cymru 3.5%.

ii. Dyraniad ychwanegol arfaethedig o £3,700,000 mewn Cymorth Grant Cyfalaf ar gyfer gwaith yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gyda £2,000,000 yn rhagor o Gymorth Grant Cyfalaf i Amgueddfa Lechi Cymru, a

phosibilrwydd o £1,000,000 yn rhagor yn nes ymlaen yn 25/26, yn ogystal â £2,500,000 i'w rannu rhwng gwaith blaenoriaethu ac ailddatblygu yn Sain Ffagan ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

iii. Awgrymwyd y dylai cyfrifon rheoli yn y dyfodol a'r gyllideb ar gyfer 2025/26 gael eu cyflwyno mewn fformat sy'n gosod incwm masnachol ar wahân i Gymorth Grant er mwyn sicrhau eglurder o ran y symiau a gedwir fel cronfeydd wrth gefn preifat yn y lle cyntaf, a'r symiau a drosglwyddir wedi hynny o'r cronfeydd wrth gefn preifat i dalu am wariant craidd, os bydd angen. Drwy gydol y degawd diwethaf, mae gwariant craidd bob blwyddyn wedi bod yn fwy na swm cyfanredol y Cymorth Grant ac incwm masnachol, ac mae diffygion o'r fath wedi cael eu hariannu drwy drosglwyddo symiau o'r cronfeydd wrth gefn preifat. Felly, ni fu angen gwahaniaethu'n glir rhwng y ffynonellau incwm. Yn dilyn y camau a gymerwyd i ddileu'r diffyg strwythurol yn 24/25, roedd yn bwysig gwneud hynny.

iv. Byddai diweddariadau ar gyllid posibl ar gyfer CELF yn cael eu rhannu wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Byddai diweddariadau pellach hefyd yn cael eu rhoi ynglŷn â chyllid ychwanegol i dalu am y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol ar gyfer 25/26.

### 3.1 Adroddiad Ariannol Diwedd Mis Hydref

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, a ddiolchodd i Lywodraeth Cymru am y diweddariad ar y gyllideb, gan nodi y byddai'r amcanestyniadau presennol ynghylch Cymorth Grant Cyfalaf yn rhoi cyfleoedd i Amgueddfa Cymru fwrw ymlaen â phrosiectau y byddai bylchau yn y gyllideb ar gyfer eu cyflawni fel arall. Nodwyd hefyd fod y diweddariad ar Gymorth Grant Refeniw hefyd yn un i'w groesawu.

II. Nodwyd y byddai Amgueddfa Cymru yn paratoi cyllideb un flwyddyn ar gyfer 25/26, ac y byddai dull cyllidebu sylfaen sero'n cael ei ddefnyddio, gan olygu y byddai timau'n gallu gwneud cais am y cyllid y bydd ei angen arnynt, yn hytrach na bod cyllideb yn cael ei dyrannu iddynt a bod rhaid iddynt ei gwario. Nodwyd y byddai modd gwneud gwaith cynllunio cyllidebau mwy dangosol ar gyfer y blynyddoedd sy'n dilyn, ar ôl i broses adolygiad o wariant Llywodraeth Cymru ddechrau.

### 3.2 Diweddariad Llafar ar y Cyfrifon a'r Archwiliad Blynyddol

Noddwr a Chyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ac Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid, a nododd fod Amgueddfa Cymru mewn tanwariant ar hyn o bryd, ond bod gwaith ar y gweill i unioni hyn drwy ymchwilio i nifer o brosiectau posibl y gellid dyrannu tanwariant iddynt. Mynegwyd hyder y byddai'r holl Gymorth Grant yn cael ei wario erbyn diwedd Ch4 24/25.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

i. Roedd y staff wedi cael eu gwahodd i lunio achosion busnes a gwneud cais am Gymorth Grant ychwanegol a oedd ar gael. Roedd mwyafrif llethol y

ceisiadau hyn am brosiectau wedi cael eu derbyn, gan olygu y byddai'r Cymorth Grant nas gwariwyd yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn.

ii. Cafwyd nifer o achosion o oedi wrth recriwtio staff i swyddi gwag, a dywedwyd mai'r rheswm dros hyn oedd diffyg ymgeiswyr addas a chyfnodau rhybudd hir nifer o ymgeiswyr a benodwyd i swyddi. Hefyd, nodwyd mai rolau newydd oedd 60 o'r swyddi gwag, a oedd yn golygu y bu'n rhaid ysgrifennu disgrifiadau swydd pwrpasol o'r newydd ac yna eu graddio'n briodol, gan arwain at oedi cyn i rai cylchoedd recriwtio ddechrau.

iii. Roedd gorwariant sylweddol yn y gyllideb ar gyfer Staff Cronfa, a dywedwyd mai'r rheswm dros hyn oedd bod mwy o oriau Staff Cronfa'n cael eu defnyddio i gyflenwi swyddi gwag wrth i newidiadau i gontractau gael eu gwneud yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a Sain Ffagan. Ar ben hynny, nodwyd y byddai lleihad sylweddol mewn gwariant yn y maes hwn yn cael ei weld o hyn ymlaen gan fod y newidiadau i gontractau bellach wedi'u cwblhau. Nodwyd hefyd fod pob cyfarwyddiaeth ar y trywydd i gyrraedd y nod o safbwynt costau gweithredu.

iv. Nododd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru na ellid rhoi amserlen gadarn ar gyfer dyrannu cyllid pellach ar gyfer y gofynion Yswiriant Gwladol ychwanegol, ond bod trafodaethau'n mynd rhagddynt ac y byddai diweddariad yn cael ei roi i gydweithwyr yn Amgueddfa Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

III. Wedyn, rhoddodd Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, ddiweddariad llafar ar y cylch cyfrifon ac archwilio blynyddol, gan nodi bod yr archwiliad yn dal i fynd rhagddo, ond bod y staff wedi bod yn glir ag Archwilio Cymru ynglŷn â'r terfynau amser mewnol y byddai'n rhaid i gydweithwyr yn Amgueddfa Cymru eu bodloni er mwyn sicrhau y gellid cymeradwyo'r cyfrifon yn fewnol a'u cyfieithu cyn terfyn amser ffeilio'r Comisiwn Elusennau, sef 31 Ionawr.

IV. Ar ben hynny, nodwyd bod y rhan fwyaf o ganfyddiadau Archwilio Cymru yn ymwneud â phwyntiau datgelu technegol, ond bod y tîm Cyllid yn ymgysylltu ag Archwilio Cymru i roi sicrwydd ychwanegol ynglŷn ag ymholiadau a oedd wedi codi mewn perthynas â phennu gwerth y cynllun pensiwn a phrisio safle Amgueddfa Cymru.

V. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

i. Roedd y cylch archwilio diweddaraf wedi bod yn un anarferol, yn enwedig o ran nifer y ceisiadau am wybodaeth a gyflwynwyd i dimau ym mhob rhan o Amgueddfa Cymru, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth am eitemau na fyddai o fewn cwmpas gwaith Archwilio Cymru fel arfer. Hefyd, nodwyd bod nifer o ymholiadau wedi cael eu gwneud ynglŷn ag eitemau a oedd wedi cael eu cymeradwyo mewn asesiadau blaenorol gan Archwilio Cymru.

ii. Nodwyd bod Cooke & Arkwright wedi prisio safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd o'r newydd, yn dilyn trafodaethau gydag Archwilio Cymru am y safle, ac y bu'n rhaid cymryd amhariad ar safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd o ganlyniad i hynny. Caiff y newid hwn i werth safle Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ei drosglwyddo i'r gronfa ailbrisio wrth gefn yn unol â'r driniaeth gyfrifyddu y cytunwyd arni.

iii. Rhoddwyd gwybod i'r Ymddiriedolwyr ei bod yn debygol y byddai'n rhaid trefnu cyfarfodydd ar fyr rybudd ym mis Ionawr 2025 i gymeradwyo'r

cyfrifon blynyddol, a diolchwyd i'r Ymddiriedolwyr am eu dealltwriaeth ymlaen llaw.

**PENDERFYNWYD: CAFWYD SICRWYDD, a NODWYD yr eitem.**

---

4. **Adroddiad Diweddaru Chwarterol ar Ddatblygu Cynaliadwy**

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a dynnodd sylw'r Ymddiriedolwyr yn benodol at y Grant Gwres Carbon Isel roedd Amgueddfa Cymru wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd bod cynlluniau ar waith i sicrhau y byddai'r arian grant a roddwyd yn cael ei wario erbyn diwedd blwyddyn ariannol 24/25.

**PENDERFYNWYD: CAFWYD SICRWYDD, a NODWYD yr eitem.**

---

5. **Cynnydd o ran Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu, a nododd fod digwyddiad lansio prosiect Safbwynt(iau) ar gyfer y cyfryngau wedi cael ei gynnal yn Sain Ffagan ar 21 Tachwedd 2024. Mae'r fenter yn rhan bwysig o'r gwaith i drawsnewid Amgueddfa Cymru yn sefydliad gwirioneddol wrth-hiliol ac mae ymyriadau wedi cael eu datblygu gyda phob un o'i saith amgueddfa.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. O ran gwaith ar ddad-drefedigaethu'r casgliadau, byddai'n ddefnyddiol i'r Ymddiriedolwyr ddeall ble roedd man cychwyn Amgueddfa Cymru yn y broses hon. Er enghraifft, pa eitemau yn y casgliadau sy'n gwneud y gwaith hwn yn angenrheidiol, boed yn uniongyrchol oherwydd eu cynnwys, neu'n anuniongyrchol oherwydd y ffordd y cânt eu dehongli neu'r ffordd y cawsant eu caffael; yn ogystal â'r ffaith neu'r posibilrwydd bod y gofodau eu hunain wedi deillio o drefedigaethu.

**CAM GWEITHREDU: Papur i gael ei ysgrifennu ar drefedigaethu o fewn casgliadau ac adeiladau Amgueddfa Cymru, i'w gyflwyno i'r Ymddiriedolwyr pan fydd yn barod.**

   ii. Gofynnwyd sut y gallai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fynd i'r afael â'r agenda Wrth-hiliaeth a'i chroesawu'n llawn, a nodwyd y byddai sesiwn hyfforddi'n cael ei datblygu ar gyfer yr Ymddiriedolwyr ar ôl i nifer o'r staff ddilyn Rhaglen Amgueddfeydd Gwrth-hiliol Cymdeithas yr Amgueddfeydd.

**CAM GWEITHREDU: Hyfforddiant ar Wrth-hiliaeth i gael ei ddatblygu i'w roi i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.**

iii. Nodwyd bod cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn dweud bod y mewnbwn gan fentoriaid annibynnol yn y gymuned wedi bod yn werthfawr iawn iddynt, am iddynt gynnig safbwyntiau gwerthfawr na fyddent wedi cael eu clywed mewn trafodaethau fel arall o bosibl. Nodwyd bod y mewnbwn gan aelodau o'r gymuned ar y Gweithlu wedi bod yn anhygoel o werthfawr hefyd.

**CAM GWEITHREDU: Nia Williams i gysylltu â Paul Kindred i drafod sut y gellid rhannu a datblygu dealltwriaeth ychwanegol yn y meysydd hyn o fewn Amgueddfa Cymru.**

**PENDERFYNWYD: CAFWYD SICRWYDD, a NODWYD yr eitem.**

---

### 6. Eitemau i'w Dileu o'r Casgliadau

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nododd gynnig i ddileu 63 o sbesimenau daearegol o'r casgliadau ac, os caiff y cynnig ei gymeradwyo, eu cynnig i Brifysgol Bangor fel rhan o'r casgliad cyfeirio cregyn sy'n cael ei greu gan Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor.

II. Nodwyd mai o gasgliad cregyn Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a oedd yn cael ei gadw ym Mhrifysgol Bangor yn flaenorol, y daeth nifer o'r sbesimenau.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y cynnig i'r sbesimenau daearegol a amlinellir yn y papur gael eu dileu o'r casgliadau.**

## Safleoedd a Phrojectau Mawr – Sites and Major Projects

### 7. Ailddatblygu Llanberis – Adroddiad ar Gynnydd

Noddwr a Chyflwynydd: Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a nododd fod y cais cynllunio ar gyfer y newidiadau i safle Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis wedi cael ei wneud, ac mai'r gred oedd y byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Penderfyniadau ym mis Chwefror 2025. Roedd hyn o fewn yr amserlenni a ragwelwyd ar gyfer y prosiect.

II. Roedd safle'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis bellach ar gau ac roedd y casgliadau wedi cael eu hadleoli er mwyn i'r gwaith allu dechrau. Nid oedd y contract ar gyfer y prif waith cyfalaf wedi'i ddyfarnu eto, ac roedd dau gontractwr yn dal i gael eu hystyried, gyda Bwrdd y Prosiect yn disgwyl y dyfynbrisiau terfynol cyn bo hir.

III. Nodwyd bod rhai risgiau'n dal i fodoli o ran cyllid, ond bod cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb yn un i'w groesawu gan y byddai hyn yn gwneud

cyfraniad mawr at gau'r bwlch cyllido. Nodwyd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i baratoi cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn cael cyllid ar gyfer gweddill y prosiect. Byddai diweddariadau'n cael eu rhannu â'r Ymddiriedolwyr wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

**7.1 Diweddariad Llafar ar yr Opsiynau ar gyfer Storio Casgliad Amgueddfa Lechi Cymru**

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth, a nododd fod Bwrdd y Prosiect a rhai aelodau o Grŵp Goruchwylio Mewnol Llanberis sy'n Ymddiriedolwyr wedi ymweld â safle storio posibl sy'n cael ei ystyried yng Nglynllifon.

II. Nodwyd na fyddai'r opsiwn hwn yn un syml, ond y byddai'n debygol o gynnig potensial ychwanegol a fyddai, ynghyd â buddsoddiad ychwanegol priodol, yn ei wneud yn fwy na dim ond opsiwn storio ac yn safle a fyddai'n cynnwys gofod cadwraeth ac arddangos oddi ar safle Llanberis.

III. Nodwyd bod yr Uwch-dîm Gweithredol yn ystyried papur ar opsiynau storio posibl a'r safle yng Nglynllifon, ac y byddai'n cael ei rannu â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar ôl iddo gael ei fireinio.

IV. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Oherwydd y cynlluniau diogelwch sy'n rhan o'r prosiect i ailddatblygu safle Llanberis, byddai'r gofod arddangos dros dro yn gallu arddangos tua 90% o'r eitemau yng nghasgliadau Amgueddfa Cymru, ond ni fyddai'n briodol ar gyfer arddangos eitemau mwyaf gwerthfawr yr Amgueddfa. Fodd bynnag, gellid ôl-osod y gofod arddangos dros dro er mwyn galluogi hyn yn y dyfodol pe credid bod hynny'n angenrheidiol.

   ii. Roedd cau safle'r Amgueddfa Lechi wedi cael sylw cytbwys yn y cyfryngau, ac roedd ymdeimlad gwirioneddol o gyffro yn y gymuned leol am fod y gwaith ailddatblygu wedi dechrau.

   iii. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Scottish Power ynglŷn ag uwchraddio'r is-orsaf drydanol ar safle Llanberis, ond nid oedd amserlenni cadarn ar gyfer cwblhau'r gwaith uwchraddio hwn wedi dod i law eto.

   iv. Rhoddwyd gwybod i'r Ymddiriedolwyr fod gan Amgueddfa Cymru gyfrifoldeb, nad oedd wedi bod yn hysbys hyd yma, i gynnal a chadw adeiledd mewnol y sied locomotif ar safle Llanberis, yn ogystal â'r adeiledd allanol. Nid oedd trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Rheilffordd Llyn Padarn ynglŷn â'r mater hwn eto.

**CAM GWEITHREDU: Sesiwn archwiliad dwfn i safle'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i gael ei pharatoi erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.**

**PENDERFYNWYD: CAFWYD SICRWYDD, a NODWYD yr eitem.**

---

**8. Diweddariad ar yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru**

Noddwr a Chyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nododd fod y prosiect yn gweithio'n dda a bod llawer o geisiadau am fenthyciadau yn dod i law gan yr orielau partner. Nodwyd hefyd fod Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sef yr oriel gyntaf i gael benthyg eitemau o'r casgliadau cenedlaethol, wedi ennill gwobr am arddangosfa o'r enw 'Teulu' a gynhaliwyd ganddi'n ddiweddar gan ddefnyddio'r eitemau hyn.

II. Nodwyd bod cwestiynau ynglŷn â llywodraethu parhaus a chyllido yn y dyfodol yn dal heb eu hateb, ond bod cytundeb y byddai'r Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru yn cael ei hintegreiddio'n llawn o fewn Amgueddfa Cymru yn dilyn cyfnod pontio o dri mis. Byddai'r Oriel Celf Gyfoes yn rhan o strwythur llywodraethu cyffredinol Amgueddfa Cymru, ond byddai elfen partneriaethau'r prosiect yn parhau. Roedd trefniadau cyllido'r prosiect wrthi'n cael eu cadarnhau'n derfynol, ar ôl i newidiadau ddod i law gan Lywodraeth Cymru.

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Byddai cymorth curadurol ychwanegol yn cael ei ymgorffori yn y prosiect, gan fod yr amser staff, heb fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect, wedi cael ei amcangyfrif yn rhy isel.

   ii. Roedd yr achos busnes ar gyfer integreiddio'r Oriel Celf Gyfoes o fewn Amgueddfa Cymru yn nodi'n glir nad oedd rhagdybiaeth y byddai'r prosiect yn dod yn un hunangyllidol dros amser, nac y gallai wneud hynny, ac y byddai angen cyllid ychwanegol er mwyn parhau i gynnal y prosiect.

**CAM GWEITHREDU: Diweddariad pellach ar yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru i gael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf.**

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

---

**9. Adroddiad Blynyddol Perchnogion a Gweithredwyr Big Pit**

Noddwr a Chyflwynydd: Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu, a ddiolchodd i Brian Lewis, Pennaeth Big Pit, a Dai Price, Pennaeth Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, am eu gwaith ar yr adroddiad.

II. Nodwyd bod adroddiad yr Arolygwyr Iechyd a Diogelwch yn dangos bod Big Pit yn cydymffurfio'n llawn. Er mwyn cael sicrwydd ardderchog, roedd gwaith wedi cael ei wneud i uwchraddio'r ffordd y caiff nwyon tanddaearol eu monitro, er mwyn i hyn allu cael ei wneud ym mhen y pwll yn hytrach nag o dan y ddaear, ac roedd yr Archwilwyr Mewnol wedi cael cais i edrych ar gadernid y cynllun dirprwyo presennol sy'n deillio o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn rhinwedd eu rôl fel Perchnogion y Pwll Glo. Nodwyd y byddai'r gwaith archwilio mewnol hwn yn cael ei wneud yn ystod Ch4 24/25. Ar ôl i'r gwaith archwilio mewnol ar Big Pit gael ei gwblhau, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) er mwyn rhoi sicrwydd ac yna, pan fyddai'n barod, byddai'n cael ei gyflwyno i Fwrdd llawn yr Ymddiriedolwyr i roi sicrwydd iddynt fel Perchnogion y Pwll Glo.

**CAM GWEITHREDU: Adroddiad archwilio mewnol ar Big Pit i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd er mwyn rhoi sicrwydd maes o law.**

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Nid trefniant newydd oedd y ffaith bod Brian Lewis yn cyflawni rôl Rheolwr y Pwll Glo a Chynrychiolydd y Perchnogion, gan fod Peter Walker wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod hyn yn cydymffurfio'n llawn ac nad oedd risg o wrthdaro buddiannau, roedd y trefniant wedi cael ei gynnwys yn yr adolygiad archwilio mewnol.

   ii. Nodwyd bod diffyg hygyrchedd ar safle Big Pit, sef rhywbeth a oedd hefyd yn wir am nifer o safleoedd eraill Amgueddfa Cymru, a gofynnwyd beth oedd yn cael ei wneud i unioni hyn. Mewn ymateb i hynny, nodwyd bod Direct Access wedi cynnal archwiliadau ym mhob amgueddfa, bod cynlluniau gweithredu ar waith ac y byddai arian yn cael ei neilltuo i'r tîm Adeiladau er mwyn sicrhau y gallai newidiadau angenrheidiol i hygyrchedd gael eu gwneud ar bob safle.

   iii. Gofynnwyd a oedd unrhyw batrymau adnabyddadwy rhwng yr 21 o ddigwyddiadau yn Big Pit a oedd wedi'u nodi yn yr adroddiad ac, mewn ymateb i hynny, nodwyd mai digwyddiadau ar wahân oedd pob un ohonynt. Ar ben hynny, nodwyd mai ar ben y tir y digwyddodd pob un o'r rhain, ac na chredid bod patrwm adnabyddadwy rhyngddynt.

**PENDERFYNWYD: CAFWYD SICRWYDD, a NODWYD yr eitem.**

## Llywodraethu / Governance

### 10. Diweddariad ar Risg a'r Gofrestr Risg

Noddwr a Chyflwynydd: Royston Smith, Pennaeth Digidol

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Royston Smith, Pennaeth Digidol, a roddodd sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr fod risg yn Amgueddfa Cymru yn cael ei rheoli mewn ffordd gadarn, drwy grŵp craffu mewnol a gaiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o TIAA, sef yr archwilwyr mewnol. Yn ogystal â chraffu ar y risgiau, nodwyd bod y grŵp hwn hefyd yn arwain darnau o waith i dynhau protocolau mewn perthynas â rheoli risg achlysurol a'i fod wedi cyflwyno system broses awtomataidd er mwyn helpu i reoli risg.

II. Nodwyd mai'r anallu i atal ymosodiad seiber oedd y risg uchaf ar y Gofrestr Risg o hyd. Nodwyd bod natur barhaus y risg, er gwaethaf yr holl fesurau rheoli allweddol a oedd ar waith, yn golygu bod penderfyniad wedi cael ei wneud i beidio â gostwng sgôr y risg.

III. Roedd mesurau lliniaru ychwanegol wrthi'n cael eu rhoi ar waith, sef creu Strategaeth Seiberddiogelwch, ymchwilio i Yswiriant Seiber a datblygu a hyfforddi staff yn barhaus yn bennaf, yn ogystal â'r mesurau rheoli a oedd wedi'u nodi ar y Gofrestr Risg.

IV. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
   i. Dylid ystyried a ddylid ehangu'r ffactorau sy'n achosi'r risg o dân mawr i gynnwys tywydd eithafol.

**CAM GWEITHREDU: Y syniad o gynnwys tywydd eithafol fel ffactor sy'n achosi'r risg o dân mawr i gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor craffu mewnol**

   ii. Dylai prosiectau mawr sy'n peri risg sylweddol, i enw da neu fel arall, megis ailddatblygu'r Amgueddfa Lechi, gael eu nodi fel risgiau unigol penodol ar y Gofrestr Risg.
   iii. Mewn ymateb i hyn, nodwyd bod gan brosiect yr Amgueddfa Lechi ei Gofrestr Risg ei hun, a bod Grŵp y Prosiect wedi cynnig y dylid ychwanegu risg benodol ar gyfer yr Amgueddfa Lechi at Gofrestr Risg Amgueddfa Cymru.

**CAM GWEITHREDU: Risg benodol ar gyfer yr Amgueddfa Lechi i gael ei drafftio a'i hychwanegu at y Gofrestr Risg.**

   iv. Roedd risg ychwanegol wrthi'n cael ei drafftio, a fyddai'n dod â morâl y staff a Llywio Ein Dyfodol ynghyd er mwyn tynnu sylw at y pwysau ar gapasiti staff.
   v. Roedd y Gofrestr Risg bellach yn eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer pob un o gyfarfodydd chwarterol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

---

### 11. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kate Eden, Cadeirydd, a gymerodd fod y papur cysylltiedig wedi'i ddarllen. Ni nodwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau ychwanegol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

---

### 12. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a Chyflwynydd: Jane Richardson, Prif Weithredwr

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Jane Richardson, Prif Weithredwr, a gyfeiriodd at yr heriau ar safleoedd Dre-fach Felindre a Sain Ffagan oherwydd y storm ddiweddar, yn ogystal â phroblem barhaus y llwydni yn Nantgarw, a oedd yn dechrau effeithio ar y casgliadau.

II. Hefyd, nodwyd mai megis dechrau deall effeithiau Llywio Ein Dyfodol a pha weithgarwch nad oedd yr amgueddfeydd yn gallu ei wneud mwyach oedd Amgueddfa Cymru. Bu'n rhaid cydnabod y byddai gwaith i ofalu am gasgliadau a'u harddangos, yn enwedig caffaeliadau newydd, yn cymryd mwy o amser gan nad oedd capasiti mewnol i gynnal lefelau gweithgarwch blaenorol mwyach.

III. Nodwyd hefyd fod pryder o fewn yr Amgueddfa ynglŷn â cholli'r genhedlaeth nesaf o arbenigwyr mewnol gan fod nifer sylweddol o staff ar ganol eu gyrfaoedd wedi gadael fel rhan o'r ailstrwythuro a ddigwyddodd yn ystod cyfnod cyntaf Llywio Ein Dyfodol.

IV. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Roedd strategaeth ar gyfer y gweithlu'n cael ei datblygu er mwyn sicrhau y gallai gwaith i dyfu a rhoi benthyg y casgliadau barhau mor agos â phosibl at y lefelau blaenorol, gan roi blaenoriaeth glir i weithgarwch yn y meysydd lle roedd yr angen mwyaf.

   ii. Er ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd yn y dyfodol, nododd yr Ymddiriedolwyr y dylai Amgueddfa Cymru ystyried atal gweithgareddau na ellir eu cyflawni'n effeithiol mwyach os na fydd modd rhoi mesurau amgen ar waith.

   iii. Byddai'n fuddiol i'r Ymddiriedolwyr weld pa dimau ym mhob rhan o Amgueddfa Cymru a oedd wedi colli staff yn ystod yr ailstrwythuro, er mwyn meithrin dealltwriaeth well o feysydd lle y gallai fod risg uchel.

**CAM GWEITHREDU: Papur ar golledion yn y Gyfarwyddiaeth Casgliadau ac Ymchwil i gael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolwyr ei ystyried yn eu cyfarfod nesaf.**

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

---

### 13. Newid y Strwythur Pwyllgorau Arfaethedig ac Aelodaeth Arfaethedig y Pwyllgorau

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, a nododd fod synergeddau'r pwyllgorau newydd ac ymarferoldeb gweinyddu'r strwythur pwyllgorau newydd wedi cael eu hystyried ymhellach ers i'r cynnig gwreiddiol i ailstrwythuro'r pwyllgorau gael ei gyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2024.

II. Cynigiwyd y dylai'r Pwyllgor Seilwaith a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynigiwyd yn wreiddiol gael eu huno i greu Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant newydd, a fyddai'n lleihau nifer y pwyllgorau arfaethedig o bump i chwech.

III. Cynigiwyd hefyd y dylai'r Ymddiriedolwyr arfer eu hawl, fel y'i hamlinellir yn Statud 7.5 o'r Siarter a'r Statudau, i benderfynu nad oedd angen i'r Swyddogion fod yn aelodau *ex officio* o bob pwyllgor, er mwyn lleihau'r baich posibl ar y Swyddogion.

IV. Yn olaf, cynigiwyd hefyd y dylid cymeradwyo aelodaeth y strwythur pwyllgorau newydd, fel y'i hamlinellir yn y papur.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y newidiadau arfaethedig i'r strwythur pwyllgorau ac aelodaeth y pwyllgorau, gan gynnwys yr Ymddiriedolwyr yn arfer eu hawl yn unol â'r Siarter a'r Statudau i benderfynu nad oes angen i'r Swyddogion fod yn aelodau *ex officio* o bob pwyllgor.**

---

**14. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag Amgueddfa Gelf Lywyddiaethol Oita (OPAM), Japan**

Cyflwynydd: Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Kath Davies, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil, a nododd fod teimlad y dylai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag OPAM gael ei adolygu a'i ddiweddaru oherwydd y datblygiadau sy'n parhau yn y berthynas rhwng Amgueddfa Cymru ac OPAM, yn ogystal â menter Blwyddyn Cymru yn Japan a oedd ar fin dechrau ac ymweliad y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil â Llywyddiaeth Oita ym mis Ionawr 2025.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Roedd synergedd clir rhwng y traddodiadau crefft cadarn yn Japan ac yng Nghymru, a oedd yn golygu ei bod yn debygol y byddai nifer o gyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol, gan gynnwys â sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol y tu allan i Lywyddiaeth Oita.

   ii. Gan feddwl yn ehangach, byddai'n fuddiol cael trafodaeth i amlinellu blaenoriaethau Amgueddfa Cymru o ran cysylltiadau eraill â chyrff treftadaeth ddiwylliannol rhyngwladol.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y diweddariadau i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ag OPAM.**

---

**15. Diweddariad ar Bensiynau**

Cyflwynydd: Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Steve Hudson, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, a nododd fod y papur a rannwyd cyn y cyfarfod eisoes wedi cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2024, a bod aelodau ARAC yn argymell cymeradwy'r cynigion a amlinellir ynddo.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD yr argymhellion canlynol:**

- **Derbyn yr Amrywiad Tair Blynedd a'r Darpariaethau Technegol fel y'u cyflwynwyd gan Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn, yn amodol ar addasiad i'r gyfradd ddisgownt cyn ymddeol (giltiau + 1.7%)**
- **Cytuno ar Gyfradd Cyfanswm Cyfraniad o 17.2%**

- **Cytuno y bydd yr Amserlen Cyfraniadau newydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2025.**

---

### 16. Cymeradwyo Newidiadau Arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, a amlinellodd y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo, sef:
   i. Os bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn absennol am gyfnod o fwy na thair wythnos, gan olygu na ellir rhoi awdurdodiad priodol i fathau perthnasol o gaffaeliadau, fel y'u rhestrir yn y cynllun dirprwyo, cynigir y bydd y Prif Weithredwr yn awdurdodi pob un sy'n uwch na therfynau Cyfarwyddwyr yr Is-adrannau.
   ii. Os bydd y Prif Weithredwr yn absennol am gyfnod o fwy na thair wythnos, gan olygu na ellir rhoi awdurdodiad priodol i fathau perthnasol o gaffaeliadau, fel y'u rhestrir yn y cynllun dirprwyo, cynigir y bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn gofyn am gymeradwyaeth y Cadeirydd i allu awdurdodi taliadau ar lefel ddirprwyedig y Prif Weithredwr.

II. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:
   i. Dylid ystyried dirprwyo i lawr i Gyfarwyddwyr yr Is-adrannau yn achos absenoldeb parhaus y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, gan y byddai hyn yn lleddfu'r baich gweinyddol ar y Prif Weithredwr mewn sefyllfa o'r fath.
   ii. Hefyd, gofynnwyd a ddylid ystyried newid y gwerthoedd dirprwyo gan eu bod yn gymharol isel.
   iii. Mewn ymateb i'r pwynt hwn, nodwyd bod nifer o'r paramedrau mewn perthynas â dirprwyaethau wedi'u pennu yn y cytundeb partneriaeth â Llywodraeth Cymru, ac y gellid cael sgyrsiau am hyn fel rhan o'r diwygiadau i'r cytundeb fframwaith sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.
   iv. Pe bai angen dirprwyo rôl y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu, byddai'n cael ei dirprwyo i Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf, ac yna byddai'n rhaid cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn i'r dyletswyddau hyn gael eu dirprwyo i aelod o staff yn Amgueddfa Cymru.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y newid i'r trefniadau ar gyfer dirprwyo awdurdod yn achos absenoldeb y Prif Weithredwr (Cofnod 16.I.ii).**

**Gan fod yr Ymddiriedolwyr yn dymuno CAEL SICRWYDD YCHWANEGOL ynghylch dirprwyo awdurdod yn achos absenoldeb y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (Cofnod 16.I.i), CYFARWYDDWYD y staff i gynnal profion straen pellach ar y trefniadau arfaethedig a'u dychwelyd i un o gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn y dyfodol i'w HYSTYRIED.**

**CAM GWEITHREDU: Y staff i ystyried o'r newydd yr awdurdod dirprwyedig yn achos absenoldeb parhaus y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.**

17. **Codiad Cyflog Ychwanegol Arfaethedig**

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, a nododd y byddai'r codiad cyflog arfaethedig yn sicrhau cydraddoldeb cyflog â Llywodraeth Cymru unwaith eto, yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac yn parhau ag ymrwymiad Amgueddfa Cymru i arferion teg a chyfartal o ran cyflogau.

II. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo'r codiad cyflog, ac y byddai cynnydd ychwanegol o £270,000 mewn Cymorth Grant yn talu amdano ar gyfer 24/25. Roedd y codiad cyflog hefyd wedi cael ei gynnwys yng ngofynion y gyllideb ar gyfer 25/26.

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Ar hyn o bryd, nid oedd perfformiad yn ffactor wrth roi codiadau cyflog yn Amgueddfa Cymru, a byddai'r staff yn symud i fyny eu graddau cyflog yn awtomatig bob blwyddyn, oni bai eu bod yn destun ymchwiliad fel rhan o gamau disgyblu.

   **ii.** Gan fod canlyniadau'r arolwg staff yn cynnwys sgôr isel ar gyfer y berthynas rhwng y rheolwyr a'r staff, nid oedd bwriad i gael sgyrsiau ynghylch cyflwyno meini prawf seiliedig ar berfformiad ar gyfer cyflogau staff am y tro.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y codiad cyflog ychwanegol, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2024.**

---

18. **Diweddariad Llafar gan Lywodraeth Cymru**

Noddwr a Chyflwynydd: Nicola Guy a Paul Kindred.

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Paul Kindred, Llywodraeth Cymru, a nododd mai'r brif flaenoriaeth, heblaw'r gweithgarwch ynglŷn â'r gyllideb, a drafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod, oedd yr ymgynghoriad ar yr is-adrannau roedd Gweinidogion Cymru'n bwrw golwg drosto ar hyn o bryd.

II. Nodwyd hefyd fod yr Is-adran Diwylliant yn cael ei symud i gyfarwyddiaeth newydd, sef Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg. Roedd prosesau recriwtio interim wrthi'n mynd rhagddynt i benodi Cyfarwyddwr dros dro ar gyfer yr is-adran newydd hon, a'r gred oedd y byddai'r broses o recriwtio ar gyfer y swydd barhaol yn dechrau yn y dyfodol agos.

III. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Roedd safbwyntiau cryf ar godi tâl yn Amgueddfa Cymru wedi cael eu mynegi yng nghyfarfod Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ar 11 Rhagfyr 2024. Fodd bynnag, pwysleisiwyd mai Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru oedd yn gwbl

gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â chodi tâl, ond bod egwyddor mynediad am ddim wedi'i chorffori yn llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

---

**19. Adolygu Cofnodion**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cafodd cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus blaenorol Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024, eu hadolygu a chynigiwyd y newidiadau canlynol:
II. Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid, i gael ei hychwanegu at y rhestr o bobl a oedd yn bresennol.
III. Teitl swydd Catrin Roberts, Pennaeth Cysylltiadau Allanol a Chyllido, i gael ei gywiro.

**CAM GWEITHREDU: Newidiadau i'r cofnodion i gael eu gwneud cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar wefan Amgueddfa Cymru.**

**PENDERFYNWYD: Yn amodol ar wneud y newidiadau y gofynnwyd amdanynt, CYMERADWYWYD cofnodion cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 26 Medi 2024 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.**

---

**20. Adolygu Log Camau Gweithredu'r Cyfarfod Agored**

Noddwr a Chyflwynydd: Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol

I. Tynnodd Elizabeth Connolly, Pennaeth Adnoddau Dynol a Llywodraethu Corfforaethol, sylw'r Ymddiriedolwyr at yr eitem ar y Log Camau Gweithredu a oedd yn hwyr, sef ailstrwythuro pwyllgorau'r Bwrdd – dod â'r Cylch Gorchwyl yn ôl at y Bwrdd i'w gymeradwyo.
II. Gwnaed cais i ymestyn y terfyn amser ar gyfer yr eitem hon tan fis Ebrill 2025, er mwyn i'r Uwch-dîm Gweithredol allu craffu'n fanylach arni cyn iddi gael ei rhannu â'r Ymddiriedolwyr i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD: CYMERADWYWYD y cais i ymestyn terfyn amser y cam gweithredu hwyr tan fis Ebrill 2025. NODWYD y Log Camau Gweithredu a'r cynnydd o ran cyflawni'r camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol.**

---

**21. Unrhyw Fater Arall**

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Cyflwynwyd un eitem ychwanegol gan Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ymddiriedolwyr am drafodaethau a gafwyd ynghylch a ddylai Amgueddfa Cymru barhau i gael presenoldeb ar X, sef Twitter gynt.

II. Nodwyd bod defnydd Amgueddfa Cymru o X yn cael ei adolygu fel mater o drefn arferol lle y caiff y defnydd o bob llwyfan cyfryngau cymdeithasol ei adolygu, ond ei fod hefyd yn cael ei adolygu'n benodol er mwyn asesu a oedd X yn dal i gyd-fynd â gwerthoedd Amgueddfa Cymru.

III. Roedd y timau Digidol, Marchnata a Chyfathrebu wedi nodi bod y defnydd o X yn cael llai o effaith, a'i fod yn lleihau'n naturiol gan fod llwyfannau eraill yn cael eu gweld fel mwy o flaenoriaeth strategol.

IV. Byddai gwaith penodol yn cael ei wneud yn 2025 er mwyn asesu a ddylai Amgueddfa Cymru wneud penderfyniad bwriadol i gamu i ffwrdd o X, neu a ddylid caniatáu i'r defnydd ohono barhau i leihau'n naturiol.

V. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y nodwyd y canlynol:

   i. Wrth wneud unrhyw benderfyniad ynglŷn â symud i ffwrdd o X, dylid ystyried y gallai'r newidiadau i algorithmau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol arwain at amrywiadau mawr ac annisgwyl mewn gweithgarwch.

   ii. Byddai'n synhwyrol codi'r mater â Chyrff Hyd Braich eraill Llywodraeth Cymru gan ei bod yn debygol eu bod nhw hefyd yn trafod y mater hwn.

**CAM GWEITHREDU: Y timau Marchnata a Chyfathrebu i drafod y defnydd o X gyda Chyrff Hyd Braich eraill.**

**PENDERFYNWYD: NODWYD yr eitem.**

---

**Diwedd Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd**